ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD A CYFOETH NATURIOL CYMRU

DEDDF ADNODDAU DŴR 1991

HYSBYSIAD TYNNU CAIS GORCHYMYN SYCHDER AFON HAFREN YN ÔL

SYLWER bod bygythiad o ddiffyg difrifol wedi bod mewn llifoedd/lefelau dŵr yn nalgylch Afon Hafren a oedd yn fygythiad difrifol i'r fflora neu'r ffawna sy'n dibynnu ar y dyfroedd hynny. Gwnaeth Asiantaeth yr Amgylchedd ("yr Asiantaeth") mewn perthynas â Lloegr gais i Ysgrifennydd Gwladol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â Chymru, gais i Lywodraeth Cymru am orchymyn sychder ar 17 Awst 2026.

Mae amodau sychder yn parhau ar draws dalgylch Afon Hafren. Fodd bynnag, caniataodd gostyngiadau yn y tymheredd a llai o ofyn am dynnu dŵr o Afon Hafren ar y cyd â dyfodiad rhywfaint o law inni roi'r gorau i reoli gollyngiadau o gronfa ddŵr Llyn Clywedog ar 7 Hydref 2026. Mae lefel y dŵr sy'n cael ei storio yng nghronfa ddŵr Llyn Clywedog yn parhau i gynyddu yn ystod y tywydd ansefydlog parhaus. Mae'r sefyllfa hon a'r rhagolygon wedi rhoi'r hyder i'r Asiantaeth ac i Cyfoeth Naturiol Cymru dynnu'r cais ffurfiol yn ôl am Orchymyn Sychder Afon Hafren a wnaed i'r Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac i Lywodraeth Cymru.

Dyddiad: 03 Tachwedd 2026,

Grace Wight, West Midlands Environment, Planning & Engagement Manager, Environment Agency, Mance House, Arthur Drive, Kidderminster, DY11 7RA

Lindsey Rawlinson, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau Lle, Cyfoeth Naturiol Cymru, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd, CF10 3NQ